



## **Natur Agored i Niwed Plant a'r Glasoed/ Person Ifanc – Canllawiau ar Ddefnyddio Iaith Briodol**

**Canllaw ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol, Ymarferwyr ac Asiantaethau Partner sy'n cefnogi Plant/ Pobl Ifanc a theuluoedd**

| <b>Fersiwn</b> | <b>Dyddiad Diwygio</b> | <b>Perchennog</b>                          | <b>Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol</b> | <b>Dyddiad Adolygu</b> |
|----------------|------------------------|--|---|------------------------|
| F1             |                        | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 18/10/2022  | 18/10/2024             |



|  |   |
|--|---|
| Enw'r Polisi / y Weithdrefn / y Canllawiau | Natur Agored i Niwed Plant a'r Glasoed/ Person Ifanc – Canllawiau ar Ddefnyddio Iaith Briodol |
| Cyfnod Ymgynghori                          | 20/05/2022 – 17/06/2022   |
| Dyddiad Cyhoeddi                           | 18/10/2022  |
| Dyddiad Adolygu                            | 18/10/2024  |

### Lledaenu/ Rhoi ar Waith

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau y rhoddir y Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau yma ar waith

|                           |  |
|---------------------------|--|
| BDCGC                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod ar wefan BDCGC o fewn yr adran bolisi</li> <li>Anfon at Asiantaethau Partner ar gyfer Lledaenu</li> <li>Lledaenu i arweinydd hyfforddiant asiantaethau partner ar gyfer cynnwys o fewn hyfforddiant fel y bo'n briodol</li> <li>Diweddarau hyfforddiant perthnasol i adlewyrchu'r Polisi/y weithdrefn/y canllawiau</li> </ul>   |
| Holl Asiantaethau Partner | <ul style="list-style-type: none"> <li>Lledaenu'r Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau i bob Arweinydd Gwasanaeth/ Pennaeth Gwasanaeth/Arweinydd Diogelu/ aelod o staff trwy sianeli cyfathrebu priodol e.e. Grwpiau Gweithredol Lleol</li> <li>Gosod o fewn eu gwefan eu hunain a chynnwys dolen gyda Gwefan BDCGC <a href="https://www.cysur.wales/">https://www.cysur.wales/</a></li> <li>Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau mewnol i adlewyrchu'r Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau fel y bo'n briodol.</li> <li>Diweddarau hyfforddiant mewnol i adlewyrchu'r broses fel y bo'n briodol.</li> </ul> |

### Sicrwydd

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau BDCGC o ran lledaenu'r polisi hwn a'i roi ar waith:

|                      |  |
|----------------------|--|
| BDCGC                | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofyn am sicrwydd gan Asiantaethau Partner ei fod wedi cael ei roi ar waith</li> </ul>                |
| Asiantaethau Partner | <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoi sicrwydd i BDCGC bod y broses uchod o roi'r polisi hwn ar waith wedi cael ei chwblhau</li> </ul> |

## Cyflwyniad

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ceisio cynorthwyo ymarferwyr, cynrychiolwyr a phartneriaid i fynd ati'n hyderus ac yn ddiogel i adnabod, asesu ac ymateb i blant/ oedolion ifainc a theuluoedd sy'n profi niwed y tu allan i'w hamgylchedd cartref.

Dylai'r iaith a ddefnyddiwn bob amser ystyried, cydnabod a bod yn ymatebol i drawma posibl y gall plant a phobl ifanc fod wedi ei brofi, gan ystyried lefel aeddfedrwydd plentyn, gan gynnwys iaith a lleferydd a lefel eu gweithrediad gwybyddol. Gall methiant ar ran gwasanaethau cymorth i wneud yr ystyriaethau hyn gyfrannu at erledigaeth barhaus plant a phobl ifanc a'u hatal hwy a'r rhai sy'n gofalu amdanynt rhag cael cymorth.

Mae'r canllaw hwn wedi'i greu i gynorthwyo staff, ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau partner sy'n gweithio gyda phlant, oedolion ifainc a theuluoedd a'r gymuned i ddefnyddio iaith briodol gan gyfeirio'n benodol at Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhaB) a Chamfanteisio Troseddol ar Blant (CTaB).

| Ymatebion i Niwed Plentyn / Person Ifanc Unigol  |  |
|--|--|
| Ymateb wedi'i eirio'n wael   | Ymatebion wedi'u geirio'n briodol  |
| <p><b><i>Rhoi eu hunain mewn perygl</i></b></p> <p>Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn / person ifanc sy'n gyfrifol am y risgiau a gyflwynir gan y cyflawnwr a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau rhydd a gwybodus.</p> | <ul style="list-style-type: none"><li>• Efallai fod y plentyn/person ifanc wedi eu paratoi i bwrpas penodol</li><li>• Mae'r plentyn/ person ifanc yn fwy agored i niwed o ganlyniad i gael eu cam-drin a/neu i ddioddef camfanteisio.</li><li>• Gall cyflawnwr gamfanteisio ar natur fwy agored i niwed y plentyn/ person ifanc.</li><li>• Nid yw'r plentyn/ person ifanc mewn amgylchedd amddiffynnol.</li><li>• Mae'r sefyllfa'n lleihau diogelwch y plentyn / person ifanc.</li><li>• Mae'r lleoliad yn beryglus i blant/ pobl ifanc.</li><li>• Gallai'r lleoliad/sefyllfa gynyddu'r cyfle i gam-drin/camfanteisio ar y plentyn/person ifanc.</li><li>• Nid yw'n glir a yw'r plentyn/ person ifanc dan orfodaeth neu'n cael eu gorfodi.</li><li>• Mae pryderon y gallai rhywun fod yn cam-drin y plentyn yn rhywiol / yn camfanteisio'n rhywiol ar y plentyn.</li><li>• Nid yw'n glir pam fod y plentyn / person ifanc yn mynd i mewn i gerbydau. Mae pryderon bod anghydbwysedd pŵer yn gorfodi'r plentyn/ person ifanc i weithredu fel hyn.</li></ul> |

## Ymatebion i Niwed Plentyn / Person Ifanc Unigol

### ***Ni wnaethai gydweithredu gyda...***

- Nid oedd yn ymddangos bod y plentyn / person ifanc yn teimlo'n ddigon diogel i ddatgelu.
- Mae'n ymddangos bod y plentyn/ person ifanc yn ofni canlyniadau negyddol am ddatgelu.
- Mae rhywun yn camfanteisio'n droseddol/rhywiol ar y plentyn/ person ifanc a/neu'n eu paratoi i bwrpas penodol ac felly nid yw'n gallu datgelu.
- Mae'r plentyn/ person ifanc o'r farn bod y berthynas yn gydsyniol; fodd bynnag mae'r berthynas wedi'i ffurfio yng nghydestun camfanteisio

### ***Ar goll....***

- Mae diogelwch y plentyn/ person ifanc yn cael ei lywio gan y cyd-destun.
- Nid yw'r plentyn / person ifanc yn teimlo eu bod yn gallu aros yn eu lleoliad presennol.
- Mae'r plentyn/ person ifanc yn cael eu paratoi i bwrpas penodol/ eu gorfodi i adael.
- Efallai fod y plentyn / person ifanc yn ystyried mai gadael yw'r opsiwn mwyaf diogel yn yr amgylchiadau hyn.
- Mae gan rywun arall reolaeth dros ymddygiad y plentyn/ person ifanc yma.
- Mae'r plentyn/ person ifanc wedi dychwelyd i fan diogel

### ***Gweithgaredd rhywiol gyda...***

Mae hyn yn awgrymu bod gweithgaredd rhywiol cydsyniol wedi digwydd. Os yw'n digwydd o fewn cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol nid yw'r term hwn yn briodol.

- Mae'r plentyn/ person ifanc wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.
- Mae'r plentyn/ person ifanc wedi cael eu treisio.
- Mae adroddiadau o gam-drin rhywiol.
- Mae'r plentyn / person ifanc wedi disgrifio gweithgaredd rhywiol, ond mae pryderon yn bodoli y gallai'r plentyn / person ifanc fod wedi cael eu paratoi i bwrpas penodol a/neu eu gorfodi.

### ***Yn cael rhyw ers [oed o dan 13 oed]***

Ni all plentyn dan 13 oed gydsynio i ryw ac

- Mae'r plentyn/person ifanc wedi cael eu treisio.
- Mae'r plentyn/ person ifanc wedi cael eu

## Ymatebion i Niwed Plentyn / Person Ifanc Unigol

felly mae'n cael ei gam-drin. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr iaith a ddefnyddir.

cam-drin yn rhywiol. Byddai unrhyw weithgaredd rhywiol yn yr ystod oedran hon yn gyfystyr â cham-drin.

- Mae pryderon yn bodoli y gallai'r plentyn / person ifanc fod wedi cael eu gorfodi, wedi dioddef camfanteisio, neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol
- Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar y plentyn/ person ifanc.
- Mae yna bryderon bod y plentyn / person ifanc wedi cael eu treisio.
- Mae cyflawnwyr yn cam-drin y plentyn / person ifanc yn rhywiol.
- Mae'r plentyn/ person ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol.

### ***Mewn perthynas gyda...***

Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perthynas gydsyniol ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol.

- Mae'r person ifanc yn dweud eu bod mewn perthynas gyda pherson ac mae pryderon am oedran y person hwnnw, anghydbwysedd pŵer, camfanteisio a/neu droseddu.
- Mae rhywun wedi bod yn/wrthi'n paratoi'r person ifanc i bwrpas penodol, yn eu cam-drin ac yn eu rheoli

### ***Ymwneud â CRhaB***

Mae hyn yn awgrymu bod lefel o ddewis ynglŷn â cham-drin y plentyn/ person ifanc.

- Mae'r plentyn / person ifanc yn agored i niwed o ganlyniad i gamfanteisio'n rhywiol.
- Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar y plentyn/ person ifanc.

### ***Yn cysgu gydag unrhyw un***

Mae hyn yn awgrymu bod gweithgaredd rhywiol cydsyniol wedi digwydd. Mae cysgu gydag unrhyw un yn derm sy'n barnu ac sy'n stereoteipio ac yn labelu pobl. Nid yw'n briodol mewn unrhyw gyd-destun wrth drafod plant a phobl ifanc, ond yn arbennig os yw'n digwydd o fewn cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol.

- Mae'r plentyn/ person ifanc yn agored i niwed o ganlyniad i gamfanteisio'n rhywiol / cael eu paratoi i bwrpas penodol.
- Mae'r plentyn/ person ifanc wedi cael/yn cael eu gorfodi i rannu delweddau o'u hunain ar-lein.

## Ymatebion i Niwed Plentyn / Person Ifanc Unigol

### **Sboner/Wejen**

Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perthynas gydsyniol ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol. Mae plant / pobl ifanc wedi cael eu herio yn y llys gyda recordiadau ymarferydd lle mae ymarferydd wedi cyfeirio at y cyflawnwr fel sboner neu wejen y person ifanc.

- Mae'r person ifanc yn dweud eu bod mewn perthynas gyda pherson ac mae pryderon am oedran y person hwnnw, anghydbwysedd pŵer, camfanteisio a/neu droseddu.
- Mae rhywun wedi bod yn/wrthi'n paratoi'r person ifanc i bwrpas penodol, yn camfanteisio ar y person ifanc ac yn eu rheoli

### **Danfon cyffuriau – Mae ef/hi'n danfon cyffuriau**

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddynt y galluedd i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol.

- Camfanteisio troseddol ar blant (CTaB). Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar y plentyn/person ifanc.
- Mae'r plentyn/ person ifanc yn cael eu masnachu at ddiben camfanteisio troseddol.
- A ddylem roi rhywbeth ynglŷn â linellau cyffuriau/dyled cyffuriau/manteisio ar ddibyniaeth ar sylweddau/Pŵer

### **Recriwtio/danfon/gwaith**

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddynt y galluedd i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol yr ymddygiad.

- Mae rhywun yn camfanteisio'n droseddol ar y plentyn/ person ifanc.

### **Mae ef/hi yn dewis y ffordd yma o fyw**

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddynt y galluedd i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol.

- Mae rhywun yn camfanteisio'n droseddol ar y plentyn/ person ifanc.
- Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar y plentyn/ person ifanc

## Ymatebion i Niwed i Blant mewn Grŵp

### Ymateb wedi'i eirio'n wael

#### ***Cymdeithasu neu dreulio amser gyda 'rhai hŷn'***

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddynt y galluedd i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol.

### Ymatebion wedi'u geirio'n briodol

- Dywed y bobl ifanc eu bod yn ffrindiau gyda pherson neu grŵp o bobl ac mae pryderon am oedrannau'r bobl hynny, anghydbwysedd pŵer, camfanteisio a / neu drosedd.
- Mae rhywun wedi bod yn paratoi'r person ifanc i bwrpas penodol, yn camfanteisio ar y person ifanc a/neu yn eu rheoli.

**Sylwer: Os yw'r 'rhai hŷn' hefyd dan 18 oed, bydd angen ystyried hyn gan ddefnyddio iaith sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed/ camfanteisio ac mae hefyd yn galw am brosesau/ ymateb amddiffyn plant.**

#### ***Cynnig cyffuriau iddo/iddi, yn ôl pob golwg yn gyfnewid am ryw neu i ddanfôn cyffuriau.***

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddynt y galluedd i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol sy'n ymwneud â defnyddio sylweddau.

- Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol/yn droseddol ar y plentyn/person ifanc.
- Mae rhywun yn camfanteisio'n droseddol ar y plentyn/person ifanc trwy ddyled cyffuriau.
- Mae yna bryderon bod y plentyn/ person ifanc wedi cael eu treisio am nad oes ganddyn nhw'r rhyddid na'r galluedd i gydsynio.
- Mae cyflawnwyr yn camdrin y plentyn / person ifanc yn rhywiol.
- Mae'r plentyn/ person ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol.
- Mae natur agored i niwed y plentyn / person ifanc ynghylch defnyddio cyffuriau yn cael ei ddefnyddio gan eraill i'w cam-drin.
- Mae gan y cyflawnwyr afael dros y plentyn/ person ifanc yn ôl yffaith bod ganddyn nhw ddibyniaeth ar gyffuriau.

#### ***Yn Rhan o Gang neu'n Gysylltiedig ag Un***

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddynt y galluedd i wneud dewis

- Mae rhywun yn camfanteisio'n rhywiol/yn droseddol ar y plentyn/person ifanc.
- Roedd trais a throsedd yn effeithio ar blentyn/ person ifanc, eu teulu neu eu haelwyd.
- Gall fod ymddygiadau a / neu agweddau niweidiol sy'n bodoli tuag at drais a

rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol na phroses bwerus i baratoi i bwrpas penodol.

throseddoldeb o fewn y rhwydwaith cyfoedion yma.

- Nid yw'n glir pam fod y plentyn / person ifanc yn mynd i mewn i gerbydau. Mae pryderon bod anghydbwysedd pŵer a phroses bwerus i baratoi i bwrpas penodol yn gorfodi neu'n cymell y plentyn i weithredu fel hyn.
- Mae pryderon ynglŷn â dylanwadau eraill ar y plentyn/ person ifanc.

**Sylwer: Os yw'r 'rhai hŷn' hefyd dan 18 oed, bydd angen ystyried hyn gan ddefnyddio iaith sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed/ camfanteisio ac mae hefyd yn galw am brosesau/ ymateb amddiffyn plant.**

### ***Gang(iau) yn yr Ardal / lleoliad***

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r person ifanc sy'n gyfrifol am y camfanteisio a bod ganddynt y galluedd i wneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol na'u hawl i fod yn y lleoliad heb brofi niwed.

- Mae cyfnodau o drais ieuenctid difrifol yn effeithio ar yr ardal.
- Mae grwpiau o bobl ifanc yn ymgasglu i greu diogelwch iddyn nhw eu hunain.
- Gall fod ymddygiadau a / neu agweddau niweidiol sy'n bodoli tuag at drais a throseddoldeb o fewn y man/y gymuned/y gymdogaeth yma.
- Efallai nad yw'r man/y gymuned/y gymdogaeth yn ddiogel i'r plentyn/ person ifanc neu'r grŵp o blant yma.
- Mae'n ymddangos bod cyfleoedd diogel cyfyngedig i bobl ifanc neu oedolion darfu ar ymddygiadau a / neu agweddau niweidiol sy'n bodoli tuag at drais a throseddoldeb o fewn y gymuned/y gymdogaeth yma.
- Mae ar y gymuned yma angen cymorth i fynd i'r afael â phryderon neu agweddau sy'n bodoli tuag at drais a throseddoldeb o fewn y man/y gymuned/y gymdogaeth yma.
- Oherwydd gwrthdaro a thensiynau rhwng y grwpiau hyn, efallai na fydd ardaloedd neu lleoliadau eraill yn y fwrdeistref yn ddiogel i'r plentyn neu'r grŵp o blant yma.
- Gallai'r lleoliad/sefyllfa gynyddu'r cyfle i gam-drin plant/oedolion sy'n agored i niwed.



***Er gwaethaf y risg mae'n parhau i ddychwelyd i'r lleoliad...***

Mae hyn yn awgrymu mai'r plentyn neu'r bobl ifanc sy'n gyfrifol am unrhyw gamfanteisio maen nhw'n ei brofi mewn lleoliad. Nid yw'n cydnabod cyd-destun camdriniol neu gamfanteisiol na'u hawl i fod yn y lleoliad heb brofi niwed.

- Mae gan y plentyn/plant/ y bobl ifanc rwydwaith teuluol neu gyfoedion presennol yn y lleoliad yma.
- Mae gan y plentyn/plant/ y bobl ifanc berchnogaeth neu fuddsoddiad yn yr ardal.
- Mae'r plentyn/plant/ y bobl ifanc yn ystyried eu bod yn ddiogel yn y man/y gymuned/ y gymdogaeth yma.
- Nid oedd y plentyn/plant/y bobl ifanc yn ystyried eu hunain yn ddiogel lle roedden nhw.
- Mae'r plentyn/plant/y bobl ifanc wedi cael eu paratoi neu eu gorfodi i fod yn y gymdogaeth/lleoliad yma.
- Dydy'r plentyn/plant/y bobl ifanc ddim yn teimlo bod ganddyn nhw le diogel arall i fynd.
- Gallai'r lleoliad/sefyllfa gynyddu'r cyfle i gam-drin plentyn/plant/pobl ifanc.
- Mae'r plentyn/plant/y bobl ifanc yn teimlo dan fygythiad/ dan orfodaeth i aros yn y lleoliad yma.
- Nid yw'r plentyn/plant/y bobl ifanc yn teimlo'n ddigon diogel i adael y lleoliad yma.